

Sgowtiaid Afanc (6-8 mlwydd oed) - Nodiadau Arweinydd - Pleidleisio

Amcanion

- Deall beth yw pleidlais a pam ei bod yn bwysig pleidleisio.
- Deall hyn yn well drwy gymryd rhan mewn cyfres o weithgareddau pleidleisio.

Gofyniad 1:

Gyda chymorth gan oedolyn ewch i archwilio adeilad y cyngor lleol ac adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chreu darlun/model o un neu'r llall.

I helpu:

Trefnwch ymweliad â'r Senedd (adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru) gan ddefnyddio ein gwefan. Cliciwch **yma** am y dudalen we berthnasol.

Gofyniad 2:

Mewn coloni 'Log Chew', trafodwch pleidleisio a cymerwch ran mewn pleidlais gyfrinachol, gyda thrafodaeth a dadl addas.

Adnoddau (darperir y rhain yn electronig gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru)

- Cyflwyniad PowerPoint ar gyfer trafodaeth ar bleidleisio (dewisol)
- Taflen 5 addewid manifesto (i'w defnyddio gydag opsiwn 1 isod)
- Arwyddion IE/NA (i'w defnyddio gydag opsiwn 1 isod)
- Templed papur pleidleisio (i'w ddefnyddio gydag opsiwn 1 isod)

Cyflwyniad

Arweinydd i gyflwyno'r canlynol i annog trafodaeth am bleidleisio. Cyflwyniad PowerPoint ar gyfer cael trafodaeth am bleidleisio (dewisol)

- Beth yw pleidlais? - Pobl yn mynegi barn am rywbeth.
- Pryd mae pobl yn pleidleisio? - Dadleuon, Cynghorau Ysgol, Etholiadau, rhaglenni teledu realiti.
- Sut mae pobl yn pleidleisio? - Galwadau ffôn, negeseuon testun, siarad, dangos dwylo, papurau pleidleisio, pwyso botwm, cardiau pleidleisio.



2 opsiwn gweithgaredd

Opsiwn 1

Gofynnwch i ddau arweinydd/gwirfoddolwr ysgrifennu rhestr o 5 addewid (pethau mae'n nhw yn gaddo eu gwneud i fod yn arweinydd/gwirfoddolwr da). Sicrhewch bod rhai ohonynt yn rhai y byddai'r sgowtiaid yn falch ohono a rhai eraill na fyddent yn pleidleisio amdanynt.

–Sefydlwch wal IE / NA yn yr ystafell.

–Gofynnwch i'r arweinyddion/gwirfoddolwyr ddarllen eu rhestr o addewidion. Ar ôl i bob un ddarllen eu rhestr gofynnwch i'r coloni bleidleisio IE neu NA i bob arweinydd/gwirfoddolwr.

–Cyfrifwch y pleidleisiau ar gyfer pob un a datgan un yn enillydd.

Opsiwn 2

–Gosodwch 4 bowlen ar fwrdd, gyda phob bowlen yn cynnwys gwahanol flasau o greision, gwahanol fathau o fferins/losin, gwahanol fathau o siocled er enghraifft.

–Dywedwch wrth y Sgowtiaid y cânt fynd i flasau o bob un bowlen.

–Unwaith mae'n nhw wedi blasu o bob bowlen gofynnwch iddyn nhw eistedd a meddwl am ba un oedd y gorau ganddynt a pha un ddylai fod yn fyrbryd swyddogol y coloni 'Log Chew'..

–Yn nghornel yr ystafell gosodwch fwrdd gyda bocs pleidleisio a phapurau pleidleisio.

–Gofynnwch i bob unigolyn fynd i fyny a phleidleisio dros eu hoff fyrbryd.

–Cyfrifwch y pleidleisiau a cyflwynwch y canlyniadau. Sut mae'n nhw'n teimlo?

